**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 3347 (Cy.307)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2006

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru, yn diwygio'r Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 ("Rheoliadau 1992").

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol ("Deddf 1988") mae'n ofynnol i awdurdodau bilio (yng Nghymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Rheoliadau 1992 yn cynnwys rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau hynny ar gyfer awdurdodau bilio Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992-

- trwy newid geiriad paragraff 3(1) o Atodlen 1 (Rheolau ar gyfer Cyfrifo Cyfraniadau Ardrethu Annomestig) bod y didyniad o 90% y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw yn cyfeirio yn unig at ryddhad ardrethu disgresiynol a roddir gan awdurdodau bilio mewn perthynas â hereditamentau y mae adran 47(2)(b), (ba) neu (c) yn gymwys iddynt. O ganlyniad ni fydd yna ddidyniad mewn perthynas â rhyddhad disgresiynol ardrethi a roddir gan yr awdurdod bilio i drethdalwyr sy'n meddiannu hereditamentau y mae adran 43(4B) o Ddeddf 1988 yn gymwys iddynt (hereditamentau sy'n cael rhyddhad gorfodol ardrethi busnesau bychain);

- trwy roi lluosydd newydd ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2 yn lle'r un presennol (Rhagdybiaethau parthed swm gros); a

- trwy roi Atodlen 4 newydd yn lle'r un bresennol (Ffigyrau Poblogaeth Oedolion).

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 3347 (W.307)

# RATING AND VALUATION, WALES

## The Non-Domestic Rating Contributions (Wales) (Amendment) Regulations 2006

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations, which apply in relation to Wales, amend the Non-Domestic Rating Contributions (Wales) Regulations 1992 ("the 1992 Regulations").

Under Part II of Schedule 8 to the Local Government Finance Act 1988 ("the 1988 Act") billing authorities (in Wales, county and county borough councils) are required to pay amounts (called non-domestic rating contributions) to the National Assembly for Wales. The 1992 Regulations contain rules for the calculation of those contributions for Welsh billing authorities.

These Regulations amend the 1992 Regulations by-

- changing the wording of paragraph 3(1) of Schedule 1 (Rules for the Calculation of Non-Domestic Rating Contributions) such that the 90% deduction referred to in that paragraph only relates to discretionary rate relief granted by billing authorities in respect of hereditaments to which section 47(2)(b), (ba) or (c) apply. Consequently there will be no deduction in respect of discretionary rate relief granted by the billing authority to ratepayers who occupy hereditaments to which section 43(4B) of the 1988 Act applies (hereditaments which receive mandatory small business rate relief);

- substituting a new multiplier in paragraph 2(12) of Schedule 2 (Assumptions as to gross amount); and

- substituting a new Schedule 4 (Adult Population Figures).

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif (Cy. )

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *12 Rhagfyr 2006* |
| *Yn dod i rym* | *31 Rhagfyr 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 60, 140(4) a 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (**1**) a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru:

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2006 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992**

**2**.-(1) Diwygir Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**2**) fel a ganlyn parthed blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2007.

(2) Ym mharagraff 3(1)(b) o atodlen 1, yn lle'r geiriau "other than" hyd at ddiwedd y paragraff hwnnw, rhodder "in relation to which section 47(2)(b), (ba) or (c) applies were taken into account".

(3) Ym mharagraff 2(12) o atodlen 2, yn lle "1.004" rhodder "1.001".

(**1**) 1988 p. 41. Cafodd y pwerau hyn eu datganoli, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), *gweler* y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1999 yn Atodlen 1.

(**2**) OS 1992/3238, a ddiwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/619, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439 (Cy.47), 2000/3382 (Cy.220), 2001/3910 (Cy.322), 2002/3054 (Cy.289), 2003/3211 (Cy.304), 2004/3232 (Cy.280) a 2005/3345 (Cy.259).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. (W. )

# RATING AND VALUATION, WALES

## The Non-Domestic Rating Contributions (Wales) (Amendment) Regulations 2006

| | |
|---|---|
| *Made* | *12 December 2006* |
| *Coming into force* | *31 December 2006* |

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 60, 140(4) and 143(1) and (2) of, and paragraphs 4 and 6 of Schedule 8 to, the Local Government Finance Act 1988(**1**) and now vested in the National Assembly for Wales:

**Title, application and commencement**

**1**.-(1) The title of these Regulations is the Non-Domestic Rating Contributions (Wales) (Amendment) Regulations 2006 and they come into force on 31 December 2006.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**Amendment to the Non-Domestic Rating Contributions (Wales) Regulations 1992**

**2**.-(1) The Non-Domestic Rating Contributions (Wales) Regulations 1992(**2**) are amended as follows in relation to financial years beginning on or after 1 April 2007.

(2) In paragraph 3(1)(b) of schedule 1, for the words "other than" to the end of that paragraph, substitute "in relation to which section 47(2)(b), (ba) or (c ) applies were taken into account".

(3) In paragraph 2(12) of schedule 2, for "1.004" there is substituted "1.001".

(**1**) 1988 c. 41. These powers were devolved, in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), *see* the reference to the Local Government Finance Act 1988 in Schedule 1.

(**2**) S.I. 1992/3238, amended by S.I. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/619, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439 (W.47), 2000/3382 (W.220), 2001/3910 (W.322), 2002/3054 (W.289), 2003/3211 (W.304), 2004/3232 (W.280) and 2005/3345 (W.259).

(4) Yn lle atodlen 4 rhodder yr atodlen a osodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(4) For schedule 4 there is substituted the schedule set out in the Schedule to these Regulations.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**).

12 Rhagfyr 2006

12 December 2006

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) 1998 p.38.

(**1**) 1998 c.38.

## YR ATODLEN SCHEDULE

Rheoliad 2 | Regulation 2

"SCHEDULE 4

ADULT POPULATION FIGURES

| **Billing authority area** | **Prescribed figure** |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 52,900 |
| Bridgend | 101,600 |
| Caerphilly | 130,300 |
| Carmarthenshire | 140,000 |
| Cardiff | 251,200 |
| Ceredigion | 64,100 |
| Conwy | 88,800 |
| Denbighshire | 75,600 |
| Flintshire | 166,900 |
| Gwynedd | 93,100 |
| Isle of Anglesey | 54,300 |
| Merthyr Tydfil | 42,100 |
| Monmouthshire | 68,300 |
| Neath Port Talbot | 106,200 |
| Newport | 106,100 |
| Pembrokeshire | 91,500 |
| Powys | 103,800 |
| Rhondda Cynon Taf | 179,100 |
| Swansea | 179,800 |
| Torfaen | 69,600 |
| Vale of Glamorgan (The) | 94,600 |
| Wrexham | 102,300 |

"

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W455/12/06 ON